

ADRODDIAD AR WEITHREDIAD SAFONAU'R GYMRAEG 2017/18

CYNGOR GWYNEDD

1. Cefndir

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn gosod fframwaith gyfreithiol, sydd yn rhoi dyletswydd ar y Cyngor i gydymffurfio â safonau mewn perthynas â'r Gymraeg. Mae safon yn egluro sut mae disgwyl i sefydliadau ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol sefyllfaoedd.

Mae'r dyletswyddau sy'n deillio o'r safonau'n golygu na ddylai'r Cyngor drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru, ac y dylai'r Cyngor hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg (sef ei gwneud yn haws i bobl ei defnyddio yn eu bywydau o ddydd i ddydd).

Mae'r Safonau Iaith wedi eu rhannu yn bum maes:

- cyflenwi gwasanaethau
- llunio polisi
- gweithredu
- hybu
- cadw cofnodion

Derbyniodd y Cyngor hwn hysbysiad cydymffurfio gan Gomisiynydd y Gymraeg o dan Ran 4 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ar 30 Medi 2015. Roedd yr hysbysiad hwn yn pennu'r safonau penodol y mae'n ofynnol i'r Cyngor gydymffurfio â hwy, ac ar 30 Mawrth 2016 daeth 147 o safonau yn weithredol, gyda 4 o safonau hybu yn dod yn weithredol ar 30 Mawrth 2017.

Yn sgil ymrwymiad hanesyddol y Cyngor i'r iaith Gymraeg, roedd y Cyngor eisoes wedi bod yn cydymffurfio â nifer sylweddol o'r safonau a osodwyd arno trwy weithrediad ei Gynllun Iaith, ac yn wir, roedd y Cynllun hwn yn mynd ymhellach na safonau'r Gymraeg mewn sawl maes.

Ystyriwyd na ddylid gwanhau ymrwymiad presennol y Cyngor tuag at y Gymraeg trwy gyfyngu'r ymrwymiad i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg yn unig, ac o ganlyniad, datblygwyd Polisi Iaith o'r newydd.

Nod Polisi Iaith y Cyngor – sef ei brif gyfrwng o sicrhau cydymffurfiaeth efo'r Safonau Iaith – yw sicrhau fod posib i holl drigolion y sir ddefnyddio gwasanaethau'r Cyngor drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Dilynir yr egwyddor y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal, ond gan weithio yn rhagweithiol i sicrhau bod y Gymraeg yn cael blaenoriaeth bob amser.

2. Cydymffurfio efo'r Safonau:

Nodir yn yr adran hon unrhyw Safonau lle mae'r Cyngor wedi gorfod cymryd camau ychwanegol neu roi ystyriaeth arbennig – y tu hwnt i weithredu'r Polisi Iaith – yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Cymerir camau er mwyn sicrhau ein bod yn gwneud y gorau dros bobl Gwynedd o safbwynt cynnig gwasanaethau Cymraeg yn rhagweithiol, ac hefyd o safbwynt annog a hybu mwy o ddefnydd o'r Gymraeg wrth ymwneud efo'r gwasanaethau hynny.

SAFONAU CYFLENWI GWASANAETH

Mae gan Gyngor Gwynedd ddyletswydd i gydymffurfio â 70 o safonau cyflenwi gwasanaeth, a 6 o safonau atodol cyflenwi gwasanaeth. Yn sgil ymrwymiad hanesyddol Cyngor Gwynedd i'r Gymraeg, roedd y Cyngor eisoes yn gweithredu'n unol neu thu hwnt i ofynion nifer o'r safonau hyn pan y gosodwyd hwy ar y Cyngor gan Gomisiynydd y Gymraeg.

SAFON	CYNNWYS Y SAFON	GWEITHRED
7+14+21+ 30+32	Safonau Cyflenwi Gwasanaeth yn ymwneud â gofyn i unigolyn a ydynt yn dymuno cael gwasanaeth Cymraeg neu ddatgan ein bod yn croesawu cyswllt yn Gymraeg	<p>Yn sgil Polisi Iaith ac ymrwymiad hanesyddol y Cyngor i'r Gymraeg, y mae'r defnydd o'r Gymraeg wedi ei normaleiddio ac mae ymwybyddiaeth uchel ymysg y cyhoedd y gallent gyrchu gwasanaethau a gohebu gyda'r Cyngor yn Gymraeg.</p> <p>Yn sgil ymchwiliad i fethiant honedig i gydymffurfio gyda'r Safonau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, fodd bynnag, cafwyd trafodaeth ynghylch y Safonau sydd yn ymwneud a "datgan" bod posib i drigolion gysylltu yn Gymraeg, neu "ofyn" am ddewis iaith. Ar hyn o bryd, rydym yn hyderus bod y drefn bresennol yn ddigonol, a bod ymwybyddiaeth dda ymysg y cyhoedd o'r gallu i gyfathrebu a'r Cyngor yn Gymraeg. Byddwn serch hynny yn sicrhau bod y mater yn cael ei drafod yn rheolaidd wrth i ni ddatblygu gwell dealltwriaeth o'r ffordd y mae pobl yn cyfathrebu gyda ni, ac yn adolygu'r sefyllfa wrth ddatblygu trefniadau cyfathrebu newydd, megis hunanwasanaeth ar lein.</p>
35+36	Safonau Cyflenwi Gwasanaeth yn ymwneud â digwyddiadau cyhoeddus	Rhoir y flaenoriaeth bob amser i'r Gymraeg mewn digwyddiadau a gynhelir gan y Cyngor, a bydd amodau'n cael eu gosod mewn cytundebau ariannu i sicrhau bod y Gymraeg yn cael lle blaenllaw.

		<p>Mae'r Cyngor hefyd yn gweithio i ddylanwadu ar ddigwyddiadau lle byddant yn ariannu llai na 50% o'r digwyddiad, gan gyfeirio trefnwyr at yr Uned Iaith a Hunaniaith am gefnogaeth bellach er mwyn annog mwy ddefnydd o'r Gymraeg mewn digwyddiadau mawrion ar draws y sir.</p> <p>Bydd y gwaith hwn yn parhau dan ymrwymadau a wneir yn Cynllun y Cyngor a Chynllun Hybu'r Gymraeg yng Ngwynedd</p>
<p>52+55+56+</p> <p>57+58+</p> <p>59+60</p>	<p>Safonau Cyflenwi Gwasanaeth yn ymwneud â'r wefan, apiau, cyfryngau cymdeithasol, a pheiriannau hunan-wasanaeth</p>	<p>Mae rhai rhwystrau yn parhau efo apiau a gwefannau, ac yn enwedig felly wrth brynu systemau allanol. Rydym yn parhau i ddelio gyda'r achosion hyn yn unigol er mwyn sicrhau bod y cyhoedd yn cael y gwasanaeth a'r dewis gorau.</p> <p>Mae angen gweithio yn barhaus i godi ymwybyddiaeth cwmnïau allanol o'r angen i ddatblygu apiau yn ddwyieithog o'r cychwyn, yn hytrach na gorfod eu haddasu i anghenion bellach ymlaen. Ar hyn o bryd mae llawer o amser ac adnodd yn mynd i drafod a negyddu gyda chwmnïau (sydd yn aml yn targedu awdurdodau lleol ledled Cymru) o werth ac angen darparu yn ddwyieithog.</p> <p>Byddwn hefyd yn ystyried datblygu mwy o apiau yn fewnol, er mwyn sicrhau eu bod yn ateb y gofynion yn lleol, yn hytrach na dibynnu ar geisio dylanwadu ar gwmnïau i addasu apiau neu feddalwedd sydd yn bodoli yn barod i fod yn rhai dwyieithog.</p> <p>Mae'r Cyngor ei hun wedi bod yn datblygu mwy o wasanaethau ar-lein yn y flwyddyn ddiwethaf, a byddwn yn monitro defnydd o'r gwasanaethau hynny er mwyn asesu a oes mwy y gallwn ei wneud i annog defnydd o'r fersiynau Cymraeg.</p>
<p>ATODOL</p> <p>155+156+157+</p> <p>158+159+160</p>	<p>Safonau Cyflenwi Gwasanaeth sydd yn ymwneud â threfniadau cydymffurfio gyda'r</p>	<p>Dilynir y drefn gwynion gorfforaethol wrth ymdrin â chwynion iaith, ac mae'r drefn honno ar wefan y Cyngor.</p> <p>Llunir a chyhoeddir adroddiad blynyddol gan y Cyngor yn unol â gofynion Safonau'r Gymraeg.</p>

	Safonau Cyflewni Gwasanaeth	
--	--------------------------------	--

SAFONAU LLUNIO POLISI

Mae gan Gyngor Gwynedd ddyletswydd i gydymffurfio â 10 o safonau llunio polisi, a 6 o safonau atodol llunio polisi. Eto, roedd y Cyngor eisoes yn gweithredu'n unol neu y tu hwnt i ofynion nifer o'r safonau hyn pan y'u gosodwyd ar y Cyngor gan Gomisiynydd y Gymraeg.

SAFON	CYNNWYS Y SAFON	GWEITHRED
88+89+90+94	Safonau Llunio Polisi yn ymwneud ag ystyried yr effaith ar y Gymraeg a siaradwyr Cymraeg.	Mae'r Uned Iaith yn chwarae mwy o rôl mewn asesiadau effaith, gan gynnig llais arbenigol ac annibynnol wrth asesu effaith newidiadau polisi neu ailstrwythuro gwasanaethau. Mae'r drefn o asesu effaith ar faterion cydraddoldeb yn cynnwys effaith ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a bydd yr Uned yn cyfrannu a gwirio unrhyw asesiadau er mwyn sicrhau'r effaith lleiaf posib.

SAFONAU GWEITHREDU

SAFON	CYNNWYS Y SAFON	GWEITHREDU
98	Safonau Llunio Polisi yn ymwneud â datblygu polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol.	<p>Mae Polisi Iaith y Cyngor yn nodi mai iaith weinyddol fewnol y Cyngor yw'r Gymraeg, gan olygu y rhoir blaenoriaeth i'r Gymraeg bob amser mewn gweithrediadau mewnol ac y cyfathrebir gyda staff y Cyngor yn Gymraeg yn gyntaf.</p> <p>Caiff yr ymrwymiad hwn ystyriaeth ofalus wrth ddatblygu unrhyw systemau staff newydd (megis yr hunanwasanaeth staff ar fewnrwyd y Cyngor sydd wrthi'n cael ei ddatblygu a'i ymestyn) er mwyn sicrhau ein bod yn blaenoriaethu'r Gymraeg, ac yn annog gweithwyr, cyn belled ag sydd yn bosib i ddefnyddio'r Gymraeg, ond gan hefyd sicrhau dewis iaith i'r rhai nad ydynt mor hyderus yn eu Gymraeg.</p>

127+136+136A+	Safonau Gweithredu yn ymwneud ag asesu sgiliau iaith ein cyflogeion	<p>Mae'r Cyngor yn casglu gwybodaeth flynyddol gan bob adran i bennu nifer y staff sydd yn siaradwyr Cymraeg.</p> <p>Mae'r angen i siarad Cymraeg wedi cael ei osod fel sgil hanfodol ar gyfer pob swydd o fewn y Cyngor, sydd yn golygu bod angen rhyw lefel o allu a dealltwriaeth ar gyfer pob swydd.</p> <p>Drwy'r drefn newydd ar gyfer dynodi lefel anghenion iaith swyddi, fodd bynnag, byddwn yn y dyfodol yn gallu casglu gwybodaeth fanylach am union lefelau sgiliau staff.</p> <p>Mae gwaith wedi cychwyn gyda rhai adrannau i adnabod sgiliau staff presennol, a bydd cefnogaeth yn cael ei gynnig i bob adran fod wedi cwblhau'r gwaith hwn erbyn diwedd Mawrth 2019.</p>
128+129+130 +131+132+133+	Safonau Gweithredu yn ymwneud ag hyfforddiant cyffredinol, hyfforddiant iaith ac ymwybyddiaeth	<p>Mae nifer helaethaf hyfforddiant y Cyngor yn cael ei ddarparu drwy gyfrwng y Gymraeg yn unig, gyda chyrsgiau Saesneg ar gael drwy gais yn unig.</p> <p>Yr unig rwystr i hyn yw pan fydd angen cyrsiau mewn meysydd arbenigol ac angen i brynu gwasanaeth i mewn.</p> <p>Rydym wedi gweithio ar geisio dylanwadu ar rai o'r darparwyr allanol hyn yn ystod y flwyddyn, gyda hyfforddiant iechyd a diogelwch IOSH yn un enghraifft nodedig, ac wedi cyfeirio'r mater am gefnogaeth y Comisiynydd.</p> <p>Mae uned Dysgu a Datblygu y Cyngor hefyd yn mynd ati i ddatblygu ac addasu cyrsiau eu hunain er mwyn bodloni'r angen ieithyddol, ac yn enwedig felly ym maes arweinyddiaeth a chyrsgiau a chymwysterau megis ILM.</p>

3. Adrodd ar niferoedd staff sydd yn gallu'r Gymraeg

ADRODD YN UNOL Â GOFYNIION SAFON 170 - (a) nifer y cyflogeion sy'n meddu ar sgiliau yn y Gymraeg

Mae'r data canlynol yn adrodd ar nifer y cyflogeion sy'n meddu ar sgiliau yn y Gymraeg, gan roi dadansoddiad o lefel y sgiliau fesul gwasanaeth:

Nid yw'r data hwn yn cynnwys gwybodaeth ar gyfer GWE ac Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd Cymru (NMWTRA) gan eu bod yn adrannau rhanbarthol sydd yn cael eu gweinyddu gan Gyngor Gwynedd.

GWASANAETH	CYFANSWM NIFER STAFF	NIFER SIARADWYR CYMRAEG RHUGL	NIFER DYSGWYR / GALLU DEALL A SIARAD RHYWFAINT	NIFER SYDD DDIM YN SIARAD NA DEALL UNRHYW GYMRAEG
Addysg – Staff canolog Staff Dysgu ¹	177	177		
Amgylchedd	159	155	4	
Cyllid	204	202	2	
Cefnogaeth Gorfforaethol	190	190		
Economi a Chymuned	531	504	22	5
Oedolion Iechyd a Llesiant	915	786	129 ²	
Plant a Chefnogi Teuluoedd	238	209	29 ²	
Priffyrdd a Bwrdeistrefol	546	530	16	
Ymgynghoriaeth	111	99	11	1
Tîm Arweinyddiaeth Corfforaethol	33	33		
CYFANSWM	3100			

¹ Mae gwaith y mynd rhagddo fel rhan o waith cynllunio a datblygu'r gweithlu gan GWE (dan arweiniad grant gan y Llywodraeth) i asesu sgiliau iaith yr holl weithlu addysgu. Bydd gwybodaeth ar gael yn fuan.

2 Ni chesglir manylion am ddysgwyr neu rai a dim sgiliau o gwbl fel rhan o ddata blynyddol y gwasanaeth (STF) – dim ond nifer y staff sydd yn siaradwyr Cymraeg.

4. Adrodd ar hyfforddiant cyfrwng Cymraeg i staff a datblygu sgiliau iaith

ADRODD YN UNOL Â GOFYNIION SAFON 170 –

(b) nifer yr aelodau o staff a fynychodd gyrsiau hyfforddi a gynigiwyd yn y Gymraeg yn ystod y flwyddyn (ar sail cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 152);

(c) os cynigiwyd fersiwn Gymraeg o gwrs gennyh yn ystod y flwyddyn, y ganran o gyfanswm nifer y staff a fynychodd y cwrs a fynychodd y fersiwn Gymraeg (ar sail cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 152);

Caiff holl raglen hyfforddiant mewnol y Cyngor ei ddarparu yn Gymraeg, gyda chysiau ar gael yn Saesneg ar gais. Os bydd aelodau o staff di-Gymraeg neu ddysgwyr mewn hyfforddiant anwytho, bydd yr hyfforddiant yn cael ei gynnig yn ddwyieithog.

Bydd y tîm Dysgu a Datblygu yn asesu pob sefyllfa a chais am hyfforddiant Saesneg yn unigol ac yn ystyried sut orau i gyflwyno'r hyfforddiant heb amharu ar allu aelodau eraill i staff i gael dilyn yr un hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg.

Yr unig achlysur lle y bydd hyfforddiant uniaith Saesneg yn cael ei gynnig yw pan fydd angen hyfforddiant mewn meysydd arbenigol lle mae diffyg hyfforddwyr cymwys Cymraeg.

Nifer “**digwyddiadau**” hyfforddi mewnol yn ystod y cyfnod 01 Ebrill 2017 i 30 Mawrth 2018: **798**

Mae hyn yn gyfuniad o deitlau ‘corfforaethol’ ac ‘arbenigol’ ac yn cynnwys pob math o ddysgu – wyneb yn wyneb, e-fodiwlau a webinarau.

Nifer y teitlau hyfforddiant yn ystod y cyfnod 01 Ebrill 2017 i 30 Mawrth 2018: **252**

DIGWYDDIADAU HYFFORDDI	NIFER	CANRAN TEITLAU	MYNYCHWYR
Cymraeg	452	56.6%	1821
Saesneg	174	21.8%	894
Dwyieithog	172	21.6%	826

Canran a fynychodd hyfforddiant Cymraeg neu ddwyieithog felly: **78.2%**

- Mae'r ffigyrau uchod yn cyfrif mai un unigolyn sydd wedi mynychu bob digwyddiad - nid yw y ffigwr yn adlewyrchu niferoedd staff unigol a allai fod wedi mynychu mwy nag un cwrs yn ystod y flwyddyn
- Mae'r niferoedd yn cynnwys staff a chynghorwyr
- Mae'r niferoedd yn cynnwys pob math o hyfforddiant - wyneb i wyneb, sesiynau drwy webinar, sesiynau datblygu sgiliau TG, sesiynau dros gyfnod o wythnosau a gweithdai

Adroddiad Hyfforddiant Iaith Gymraeg 2017- 2018

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, penodwyd **Swyddog Dysgu a Datblygu (Iaith Gymraeg)** yn dilyn ymddeoliad Cydgysylltydd y Gymraeg ym mis Gorffennaf 2017.

Mae'r penodiad newydd hwn wedi galluogi i'r Cyngor i ymestyn ei ddarpariaeth ar gyfer hyfforddiant iaith Gymraeg, ac edrych ar sefydlu cyrsiau sydd yn datblygu sgiliau ei staff Cymraeg eu hiaith, yn ogystal â pharhau i gefnogi'r aelodau o staff hynny sydd angen dysgu'r Gymraeg neu wella eu defnydd o'r Gymraeg er mwyn gofynion eu swyddi.

Gwelwyd gostyngiad yn nifer y dysgwyr oedd yn mynychu cyrsiau allanol (yn enwedig rhai cymunedol) yn y cyfnod trosglwyddo, a gallai hynny fod am sawl rheswm. Gallem fod wedi colli rhai unigolion wrth drosglwyddo'r cyfrifoldebau i'r swyddog newydd. Ond hefyd rhaid ystyried y posibilrwydd bod rhai unigolion wedi gorffen cyrsiau, neu wedi penderfynu peidio â pharhau, neu bod y Cyngor wedi penodi llai o unigolion heb sgiliau Cymraeg i swyddi newydd yn ystod y flwyddyn. Mae nifer o newidiadau hefyd wedi bod yn y ddarpariaeth allanol, a allai fod wedi achosi dryswch i nifer.

Achosodd y newidiadau i strwythur a threfniadau **Cymraeg i Oedolion**, er enghraifft, ychydig anhwylder ar y dechrau oherwydd dulliau newydd o gofrestru ar gwrs (byddai unigolion yn archebu lle eu hunain ar-lein yn hytrach na'r hen drefn o archebu trwy'r cydlynnydd hyfforddiant yn fewnol). Yn ystod y cyfnod hwn, sefydlwyd perthynas dda rhwng y Gwasanaeth Dysgu a Datblygu a'r Ganolfan Cymraeg i Oedolion ym Mangor, a llwyddwyd i oresgyn materion yn weddol rwydd ar y cyfan. **Dysgu Cymraeg Gogledd Orllewin** yw'r prif ddarparwr allanol ar hyn o bryd.

Serch hynny, rydym yn ystod y flwyddyn hefyd wedi gweld cynnydd sylweddol yn y nifer sy'n mynychu cyrsiau gloywi ac mae'r ymateb i gyrsiau newydd sydd yn ymwneud â gramadeg a sgiliau ysgrifenedig wedi bod yn gadarnhaol iawn.

O safbwynt y ddarpariaeth a gynigiwyd i ddysgwyr, defnyddiwyd y trefniadau isod yn ôl y galw:

- Cyrsiau cymunedol dros gyfnod hir (dysgwyr yn mynychu unwaith neu ddwywaith yr wythnos yn y gymuned)
- Sesiynau Gloywi Iaith rheolaidd (ers Ionawr 2018) a gynhelir gan y Swyddog Dysgu a Datblygu (Iaith Gymraeg) e.e. Treiglo, Cymraeg Elfennol
- Sesiynau unigol 1:1 gyda'r Swyddog Dysgu a Datblygu (Iaith Gymraeg) ar gais unigolion
- Sesiynau unigol 1:1 gyda thiworiaid allanol ar gais unigolion
- Cyrsiau dwys (wythnos neu fwy – yn y Prifysgolion neu Nant Gwrtheyrn)
- Cyrsiau achlysurol – e.e. *Cymraeg yn y Gweithle* (dau ddiwrnod)
- Ysgolion Haf (a gynhaliwyd gan Dysgu Cymraeg Gogledd Orllewin)
- Cwrs ar-lein gan Dysgu Cymraeg
- Cynhelir un dosbarth yn fewnol: Dosbarth lefel Meistroli (Lefel Uwch 2) – un bore'r wythnos.

Crynodeb (nifer yr unigolion cyfredol):

Cwrs	Lleoliad a Dyddiad	Nifer unigolion
Cyrsiau Cymunedol (ar lefelau Meistroli, Sylfaen, Canolradd ac Uwch)	Lleoliadau ar gael ar draws gogledd orllewin Cymru yn ôl y galw. Fel arfer, mynychir unwaith yr wythnos am hyd at ddwy awr am gyfnod o tua dwy flynedd (gan ddibynnu ar yr oriau cyswllt a'r lefel).	19
Cymraeg yn y Gweithle	2 ddiwrnod Mehefin 2018, Prifysgol Bangor	2
Dosbarth lefel Meistroli (gyda'r Swyddog Dysgu a Datblygu (Iaith Gymraeg))	Ystafell Mawddach, y Ganolfan Ddysgu, bob bore Mercher 9:30-12:00(a 2 wedi gadael y Cyngor yn ystod y cyfnod hwn)	5
Gloywi Iaith (mewnol)	Y Ganolfan Ddysgu, ers Ionawr 2018 hyd yma	32
Cwrs preswyl dwys (wythnos)	Nant Gwrtheyrn, Tachwedd 2017	1
Sesiynau 1:1 dysgu /gloywi Cymraeg	Trefnir sesiynau ymgynghorol neu diwtora 1:1 ar bob lefel ieithyddol gyda'r Swyddog Dysgu a Datblygu (Iaith Gymraeg) ar gais unigolion. Mae'r sesiynau hyn yn amrywio'n helaeth yn dibynnu ar anghenion yr unigolyn, o ddysgu Cymraeg o'r dechrau i edrych dros ddarn o waith neu dderbyn arweiniad ar agweddau penodol o iaith.	16
Sesiynau 1:1 dysgu/gloywi Cymraeg gyda thiwtor allanol	Yn dibynnu ar yr unigolyn. Defnyddir Skype ar gyfer un ar hyn o bryd. Ebrill-Awst 2018.	4
Ysgol Haf (Gorffennaf 2018)	Yn ystod Gorffennaf 2018 am wythnos ym Mhrifysgol Bangor/Coleg Meirion Dwyfor, Pwllheli	1
		80

Ble mae'r derbynwyr?

Adran	Dysgwyr (Mynediad-Uwch)	Gloywi
Oedolion, Iechyd a Llesiant	24	4
Ymgynghoriaeth	12	1
Plant a Chefnogi Teuluoedd	2	11
Cefnffyrdd (NMWTRA)	4	0
Addysg	3	2
Amgylchedd	2	0
Cyllid	1	0
Economi a Chymuned	2	6
Priffyrdd a Bwrdeistrefol	0	1
Cefnogaeth Gorfforaethol	0	5
Cyfanswm	50	30

Ceisiadau cyfredol am hyfforddiant: 14

Mae 14 unigolyn wedi gwneud cais am hyfforddiant iaith (ar lefelau amrywiol), ac mae'r ceisiadau wedi mynd i'r rheolwyr llinell am gadarnhad neu i'r darparwyr am le ar y cyrsiau.

Mae 28 unigolyn wedi gwneud cais am le ar gwrs Gloywi iaith mewnol rhwng nawr a mis Medi.

Datblygiadau:

Datblygu cyrsiau newydd

Ym mis Ionawr 2018, cyflwynwyd dau gwrs newydd yn dilyn ymchwil a wnaed trwy holiaduron (a gwblhawyd gan tua 190 o aelodau o staff) rhwng Hydref a Rhagfyr 2017. Roedd un ohonynt, sef hyfforddiant Treiglo, wedi'i gynnig yn y gorffennol, ond nid yn fewnol ers rhai blynyddoedd ac mae'r ymateb i'r cwrs hwn wedi bod yn gadarnhaol iawn ers ei sefydlu. Roedd y llall, Cymraeg Elfennol, yn gwrs newydd sbon a sefydlwyd yn uniongyrchol yn dilyn ceisiadau gan staff. Mae'r cwrs hwn yn dechrau ennill ei blwyf, ac yn addas ar gyfer timau sydd eisieu gloywi iaith ar y cyd.

Cafodd cwrs newydd ei ddatblygu yn dilyn cais penodol gan Reolwr hefyd, sef Datblygu Cymraeg Ysgrifenedig a chyflwynwyd yr hyfforddiant hwn i'r tîm dan sylw ym mis Chwefror 2018. Ers hynny, mae rheolwr arall wedi gwneud cais am yr un cwrs a fydd yn cael ei drefnu yn y dyfodol agos.

Does dim dwywaith na fydd y gwaith ar y dynodiadau iaith yn amlygu rhagor o angen ar gyfer cyrsiau llafar ac ysgrifennu Cymraeg yn y dyfodol agos. Mwy am y Dynodiadau iaith isod.

Cytundeb

Er mwyn ceisio hwyluso a ffurfioli'r trefniant rhwng y Cyngor, yr unigolyn a'r darparwr allanol, yn ogystal â cheisio lleihau'r nifer a roddai'r gorau neu a gollai gyfres o sesiynau, cyflwynwyd Cytundeb Hyfforddiant iaith a lofnodir gan y Gwasanaeth Dysgu a Datblygu, yr unigolyn a'i reolwr llinell. Mae'r cytundeb yn debyg iawn i gytundeb hyfforddiant cyffredinol y Gwasanaeth Dysgu a Datblygu, ond wedi'i addasu'n benodol er mwyn adlewyrchu'r gofynion ieithyddol ac er mwyn cynnwys trefn asesu'r unigolyn yn erbyn dynodiad iaith y swydd.

Dynodiadau iaith (a'r Fframwaith iaith)

Datblygwyd Fframwaith iaith newydd gan Gydgyssylltydd y Gymraeg cyn iddi ymddeol, ac erbyn hyn mae rheolwyr llinell wedi pennu dynodiad iaith i bob swydd dan eu gofal gan ddefnyddio'r Fframwaith iaith hwnnw.

Y cam nesaf fydd iddynt fynd ati i adnabod sgiliau iaith y staff, yn unol a'r fframwaith honno, ac os bydd unrhyw wahaniaeth rhwng dynodiad y swydd a lefel sgiliau yr unigolyn, eu cyfeirio at y Swyddog Dysgu a Datblygu am gefnogaeth a hyfforddiant.

Fel enghraifft o arfer dda, mae'r adran Ymgynghoriaeth Gwynedd wedi brasgamu trwy'r broses a bellach mae trefniant wedi'i wneud ar gyfer y rhan helaeth o'r rheiny a adnabuwyd i dderbyn hyfforddiant iaith.

Mae trafodaethau bellach wedi dechrau gyda'r gwasanaeth Hamdden i gynnig cefnogaeth i aelodau o staff mewn canolfannau hamdden yn y dyfodol agos, a bydd y Swyddog Dysgu a Datblygu (iaith Gymraeg) yn ymweld â gweddill yr adrannau yn eu tro.

Gwobr Goffa Dafydd Orwig 2017 – 2018

Yn hanesyddol, mae'r wobwr hon, a gaiff ei chyflwyno fel rhan o'r seremoni Cyngor ar ei Orau, wedi'i chyflwyno i ddysgwyr Cymraeg am eu hymdrech i ddysgu'r iaith. Y llynedd, roedd y wobwr yn cydnabod unigolion a oedd yn hybu a hyrwyddo'r Gymraeg ac ar arwain drwy esiampl.

Ond eleni, penderfynwyd cydnabod y ddwy garfan hon o unigolion ac felly cyflwynwyd dwy wobwr wahanol am y tro cyntaf, sef Gwobr Defnyddio'r Gymraeg yn y Gweithle a Gwobr Hybu a Hyrwyddo'r Gymraeg yn y Gweithle.

Yr enillwyr eleni oedd:

Gwobr Defnyddio'r Gymraeg yn y Gweithle: David Birdsall – Gweithiwr Cymdeithasol yn y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid (Economi a Chymuned)

Gwobr hybu a Hyrwyddo'r Gymraeg yn y Gweithle: Nia Jane Owen-Midwodd – Cynorthwy-ydd Personol i Bennaeth yr Adran Ymgynghoriaeth (Ymgynghoriaeth Gwynedd)

5. Adrodd ar ofynion iaith wrth benodi

ADRODD YN UNOL Â GOFYNIION SAFON 170 –

(ch) nifer y swyddi newydd a'r swyddi gwag a hysbysebwyd gennych yn ystod y flwyddyn a gategoreiddiwyd fel swyddi sy'n gofyn –

(i) bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol

(ii) bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg pan benodir i'r swydd,

(iii) bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol, neu

(iv) nad oedd sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol, (ar sail y cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 154);

Bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol	481
Bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg pan benodir i'r swydd	0
Bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol	0
Nad oedd sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol	0

6. Adrodd ar gwynion iaith

ADRODD YN UNOL Â GOFYNIION SAFON 170 –

(d) nifer y cwynion a dderbyniwyd

Cafwyd dau ymchwiliad gan y Comisiynydd iaith i fethiant honedig i gydymffurfio gyda'r Safonau yn ystod 2017-18.

Ymchwiliad CSG127

Roedd yr ymchwiliad hwn yn ymwneud ag amheuaeth bod y Cyngor wedi methu â chydymffurfio â dau Safon wrth ddarparu gwersi nofio mewn canolfannau hamdden.

Safon 81

Rhaid ichi hybu unrhyw wasanaeth Cymraeg a ddarperir gennych, a hysbysebu'r gwasanaeth hwnnw yn Gymraeg.

Safon 84

Os byddwch yn cynnig cwrs addysg sy'n agored i'r cyhoedd, rhaid ichi ei gynnig yn Gymraeg.

Cafwyd dyfarniad terfynol yr ymchwiliad ar **25 Gorffennaf 2017** a'r dyfarniad yn nodi nad oedd y Cyngor, ym marn y Comisiynydd, wedi methu a chydymffurfio gyda Safon 84, ond eu bod wedi methu gyda Safon 81, ar y sail nad ydym ar hyn o bryd yn nodi bod gwersi nofio'n cael eu cynnig yn Gymraeg wrth hybu a hysbysebu'r gwersi nofio.

Ymholiadau ac ymchwiliadau eraill gan y Comisiynydd:

Cafwyd un ymholiad am gytundeb rhwng y Cyngor a darparwr allanol, yn dilyn cwyn gan aelod o'r cyhoedd bod swydd yn cael eu hysbysebu yn uniaith Saesneg. Cytunodd y Comisiynydd bod y Cyngor yn delio gyda'r mater ac na fyddai angen ymchwiliad pellach.

Derbyniwyd cwyn am broses apelio y Cyngor ym mis **Gorffennaf 2017**. Rydym yn dal i aros penderfyniad y Comisiynydd ar yr achos hwn.

Nifer cwynion a dderbyniwyd yn uniongyrchol drwy broses gwynion y Cyngor:

Adran	Nifer y Cwynion
Cefnogaeth Gorfforaethol	2

Roedd y ddwy gŵyn uchod yn erbyn Polisi Iaith y Cyngor yn ymwneud â pholisi recriwtio'r Cyngor a'r angen i gael sgiliau Cymraeg i ymgeisio am swyddi.

Gwaith datblygol:

Mae gennym ffrwd gwaith prosiect o dan y teitl “Cymraeg yn y Gweithle”, sydd yn edrych yn thematig ar wahanol agweddau o gydymffurfiaeth ac yn ymchwilio i ffyrdd newydd o ddatblygu gallu’r Cyngor i gynnig dewis iaith yn rhagweithiol ac i annog mwy o’r cyhoedd i ddefnyddio ein gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg.

Rydym wedi bod yn canolbwyntio yn bennaf ar y gwaith dynodiadau iaith swyddi, ac wedi adnabod meysydd thematig sydd yn cynnwys defnydd iaith wrth ddatblygu gwasanaethau ar-lein a defnyddio apiau.

Yn ystod 2017-18 hefyd rhoddwyd llawer o sylw i osod cyfeiriad strategol y Gymraeg ar gyfer y bum mlynedd nesaf. Yn ogystal â datblygu dogfen strategol ar hybu’r Gymraeg, yn unol a gofynion y Safonau, bu’r Cyngor hefyd yn llunio Cynllun y Cyngor – y ddogfen sydd yn gosod cyfeiriad strategol y Cyngor yn ei gyfanrwydd ar gyfer y blynyddoedd nesaf – a Chynllun Llesiant Gwynedd a Môn, gan osod y Gymraeg yn gwbl ganolog i’w holl gynlluniau.

Asesu Sgiliau Iaith (Safonau 136-137)

Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi bod yn gweithio ar ddatblygu’r prosiect sgiliau iaith gyda’r adran Adnoddau Dynol a Dysgu a Datblygu. Mae’r drefn newydd ar gyfer pennu sgiliau iaith angenrheidiol wrth benodi wedi ei sefydlu, a phob adran yn y Cyngor bellach wedi edrych ar ddynodiad iaith pob swydd o fewn eu strwythur presennol.

Ail gam y gwaith hwn, sydd ar fin dechrau yw gweithio gydag adrannau i adnabod lefelau iaith yr unigolion sydd yn y swyddi hynny, er mwyn gweld a ydynt yn cyrraedd y gofynion iaith a nodwyd ar gyfer y swydd. Bydd rheolwyr yna’n gweithio gyda’r Swyddog Dysgu a Datblygu Iaith er mwyn adnabod anghenion hyfforddi, ac i gyfeirio’r swyddogion at yr hyfforddiant priodol.

Gan fod nifer y gweithwyr sydd heb unrhyw allu yn y Gymraeg yn isel iawn, nid yw hyn yn debygol o arwain at gynnydd mawr yn y galw am wersi dysgu Cymraeg, ond mae’n debygol o arwain at fwy o alw am hyfforddiant gwahanol, megis gloywi iaith neu ddatblygu sgiliau ysgrifenedig. Mae’r tuedd hwn eisoes wedi amlygu ei hun, ac wedi arwain at newid yn narpariaeth hyfforddiant y tîm Dysgu a Datblygu.

Safonau Hybu:

Yn ystod 2017-18 mae’r Cyngor wedi bod yn datblygu ei gynllun strategol newydd ar gyfer hybu’r Gymraeg yng Ngwynedd. Bydd y cynllun hwn yn ddilyniant o’r strategaeth sirol flaenorol, oedd yn cael ei harwain gan y fenter iaith yn lleol, Hunaniaith, ac yn edrych yn benodol ar ganfod cyfleoedd i

gynyddu defnydd o'r Gymraeg ymysg y trigolion. Bydd drafft terfynol a chynllun gweithredu blwyddyn gyntaf y **Cynllun Hybu** yn cael ei ddatblygu dros Haf 2018, a'i weithredu tuag at ddiwedd y flwyddyn.